

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



## HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 13 Ionawr 2015  
Tabled on 13 January 2015

Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol  
(Cymru)

Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence  
(Wales) Bill

Peter Black

101

To insert a new section –

*'Guidance for further and higher education bodies'*

### [ ] Guidance for further education bodies

- (1) The Welsh Ministers may issue guidance to providers of further education in Wales about exercising their functions with a view to contributing to the pursuit of the purpose of this Act.
- (2) Guidance issued under this section may, among other things –
  - (a) address training for the staff of providers;
  - (b) address the policies of providers including work-place policies;
  - (c) specify when, and how frequently, providers must publish a report of progress towards achieving the objectives set out in the guidance.
- (3) A power to issue guidance under this section includes a power to revise or revoke guidance, including by further guidance.
- (4) Guidance issued under this section, or a notice revoking such guidance, must state –
  - (a) that it is issued under this section, and

- (b) the date on which it is to take effect.
- (5) A provider to which guidance is issued under this section must have regard to that guidance.'

I fewnosod adran newydd –

*'Canllawiau ar gyfer cyrff addysg bellach ac uwch*

[ ] **Canllawiau ar gyfer cyrff addysg bellach**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i ddarparwyr addysg bellach yng Nghymru ynghylch arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar gyfrannu at ymgyraedd at ddiben y Ddeddf hon.
- (2) Caiff canllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon, ymysg pethau eraill –
- (a) ymdrin â hyfforddiant ar gyfer staff y darparwyr;
  - (b) ymdrin â pholisïau darparwyr gan gynnwys polisiâu'r gweithle;
  - (c) nodi pryd, a pha mor aml, y mae'n rhaid i ddarparwyr gyhoeddi adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion a nodir yn y canllawiau.
- (3) Mae pŵer i ddyroddi canllawiau o dan yr adran hon yn cynnwys pŵer i ddiwygio neu ddirymu canllawiau, gan gynnwys drwy ganllawiau pellach.
- (4) Rhaid i ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon, neu hysbysiad sy'n dirymu canllawiau o'r fath nodi –
- (a) y'u dyroddir o dan yr adran hon, a
  - (b) y dyddiad y byddant yn cael effaith.
- (5) Rhaid i ddarparwr y dyroddir canllawiau iddo o dan yr adran hon roi sylw i'r canllawiau hynny.'

**Peter Black**

102

To insert a new section –

[ ] **Guidance for higher education bodies**

- (1) The Higher Education Funding Council for Wales may issue guidance to providers of higher education in Wales about exercising their functions with a view to contributing to the pursuit of the purpose of this Act.
- (2) Guidance issued under this section may, among other things –
- (a) address training for the staff of providers;
  - (b) address the policies of providers including work-place policies;
  - (c) specify when, and how frequently, providers must publish a report of progress towards achieving the objectives set out in the guidance.
- (3) A power to issue guidance under this section includes a power to revise or revoke guidance, including by further guidance.
- (4) Guidance issued under this section, or a notice revoking such guidance, must state –

- (a) that it is issued under this section, and
  - (b) the date on which it is to take effect.
- (5) A provider to which guidance is issued under this section must have regard to that guidance.'

I fewnosod adran newydd –

**[ ] Canllawiau ar gyfer cyrff addysg uwch**

- (1) Caiff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ddyroddi canllawiau i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru ynghylch arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar gyfrannu at ymgryraedd at ddiben y Ddeddf hon.
- (2) Caiff canllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon, ymystg pethau eraill –
  - (a) ymdrin â hyfforddiant ar gyfer staff y darparwyr;
  - (b) ymdrin â pholisïau darparwyr gan gynnwys polisiau'r gweithle;
  - (c) nodi pryd, a pha mor aml, y mae'n rhaid i ddarparwyr gyhoeddi adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion a nodir yn y canllawiau.
- (3) Mae pŵer i ddyroddi canllawiau o dan yr adran hon yn cynnwys pŵer i ddiwygio neu ddirymu canllawiau, gan gynnwys drwy ganllawiau pellach.
- (4) Rhaid i ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon, neu hysbysiad sy'n dirymu canllawiau o'r fath nodi –
  - (a) y'u dyroddir o dan yr adran hon, a
  - (b) y dyddiad y byddant yn cael effaith.
- (5) Rhaid i ddarparwr y dyroddir canllawiau iddo o dan yr adran hon roi sylw i'r canllawiau hynny.'

**Peter Black**

103

Section 18, page 9, line 4, leave out ', subject to the direction of the Welsh Ministers'.

Adran 18, tudalen 9, llinell 4, hepgorer ', yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru'.

**Peter Black**

104

Section 21, page 11, after line 4, insert –

““further education” (“*addysg bellach*”) has the same meaning as in section 2 of the Education Act 1996;’.

Adran 21, tudalen 10, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

‘Mae i “*addysg bellach*” (“*further education*”) yr un ystyr ag yn adran 2 o Ddeddf Addysg 1996;’.

**Peter Black**

**105**

Section 21, page 11, after line 11, insert –

“higher education” (“*addysg uwch*”) means education provided by means of a course of any description mentioned in Schedule 6 to the Education Reform Act 1988;’.

Adran 21, tudalen 10, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

‘Ystyr “addysg uwch” (“*higher education*”) yw addysg a ddarperir drwy gwrs o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988;’.